Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Hafod Mawddach**

**Cartref Preswyl Hafod Mawddach**
**Marine Road**
**Abermaw**
**LL42 1NW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

19/01/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Hafod Mawddach

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Gwynedd |
| Lleoedd cofrestredig | 25 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 15 Mehefin 2021 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch a chânt eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau am eu dewisiadau o ddydd i ddydd. Mae'r gweithwyr gofal yn dangos dull gofalgar tuag at y bobl ac yn eu helpu i gymryd rhan mewn gweithgareddau a hobïau. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth fanwl am anghenion y bobl; fodd bynnag, nid ydynt wedi cael eu diweddaru yn dilyn newidiadau i anghenion y bobl ac ni chânt eu hadolygu bob tri mis fel sy'n ofynnol.

Mae angen gwella'r mesurau sydd ar waith i ddiogelu'r bobl rhag y risg o niwed. Mae angen datblygu'r defnydd o asesiadau risg er mwyn darparu gofal effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Nid yw'r ddogfennaeth ar gwympiadau yn y cartref yn cael ei chwblhau'n llawn ac ni chynhelir unrhyw archwiliadau o gwympiadau. Mae angen i'r darparwr weithredu ar unwaith mewn perthynas â'r maes hwn o'r gwasanaeth.

Mae'r amgylchedd yn lân ac yn gynnes. Mae gan y bobl eu hystafelloedd eu hunain a chânt leisio barn am y ffordd y caiff eu hystafell ei haddurno. Mae angen gwneud gwelliannau i sicrhau y caiff gwiriadau iechyd a diogelwch eu cwblhau yn rheolaidd a bod safonau hylendid a rheoli heintiau yn cael eu cynnal.

Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwr ac maent yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd er mwyn trafod unrhyw faterion sy'n peri pryder. Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi ymweld yn rheolaidd â'r gwasanaeth i adolygu ansawdd y gofal a ddarperir, fel sy'n ofynnol, ac mae hyn yn faes o'r gwasanaeth y mae angen ei wella.

## Llesiant

Gall y bobl fynegi eu barn i'r staff. Gall y bobl ddewis sut y maent am dreulio eu diwrnod yn y cartref. Roedd yn well gan rai aros yn eu hystafelloedd ond roedd eraill yn mwynhau cymdeithasu yn yr ardaloedd cymunedol. Mae'r bobl yn ymddangos yn drwsiadus, eu bod yn gallu ymlacio ac yn gyfforddus a chânt gymorth gan staff gofal cyfeillgar a gofalgar. Mae'r staff yn ymwybodol o ddewisiadau'r bobl a gall rhai o'r staff ddarparu gofal drwy gyfrwng y Gymraeg.

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Caiff y gofal a roddir i'r bobl o ddydd i ddydd ei gofnodi yn y cofnodion dyddiol. Fodd bynnag, ni chaiff y wybodaeth hon bob amser ei throsglwyddo i'r cynllun personol ac ni chaiff y cynllun hwnnw ei adolygu'n rheolaidd. Mae'r staff gofal yn gweithredu mewn ffordd ofalgar ac yn ymateb i anghenion y bobl mewn modd amserol. Caiff y preswylwyr eu hannog i fwynhau cydberthnasau iach a diogel ac i gael ymwelwyr. Dywedodd un aelod o deulu, *"All the family visit on a regular basis. We come and go as we like which is a good sign – Five Stars!"*

Mae'r bobl yn gwneud pethau sy'n bwysig iddynt ac yn cael profiad o weithgareddau newydd. Cynigir rhaglen wythnosol o weithgareddau amrywiol yn y cartref. Mae rhai o'r bobl yn mwynhau ymweld â'r siopau lleol neu fynd am dro ar y promenâd gerllaw. Anogir y bobl i gadw'n iach ac yn heini mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth. Maent yn teimlo'n hyderus wrth fynd at aelodau o'r staff i fynegi unrhyw bryderon. Caiff gweithwyr allweddol eu dyrannu i bob unigolyn sy'n sicrhau bod y bobl yn cael cymorth un i un ac y gall y staff fonitro llesiant y bobl. Mae'r gweithwyr gofal yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r Polisïau "Chwythu'r Chwiban" a "Diogelu" ac yn gwybod â phwy i gysylltu os bydd ganddynt unrhyw bryderon. Mae'r rheolwr wedi cyflwyno ceisiadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid i'r Awdurdod Lleol ar gyfer y bobl nad ydynt yn gallu gwneud penderfyniadau am agweddau ar eu gofal.

Mae digon o le yn y cartref ac mae'n cynnig mannau cymunedol cartrefol i'r bobl dreulio eu diwrnod. Mae eu hystafelloedd wedi'u personoli a'u dodrefnu ac yn cynnwys eitemau o'u cartref. Mae'r bobl yn dod at ei gilydd ac yn cymdeithasu yn y lolfeydd sydd ar gael ar bob llawr. Mae estyniad newydd wrthi'n cael ei adeiladu ar hyn o bryd i ddarparu gofal dementia arbenigol. Mae'r ardd wrthi'n cael ei hadnewyddu er mwyn sicrhau ei bod yn addas i bobl â dementia.

## Gofal a Chymorth

Mae'r cynlluniau personol a'r asesiadau risg yn cynnwys gwybodaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn perthynas ag iechyd a llesiant y bobl ac yn adlewyrchu sut yr hoffai'r bobl gael cymorth. Fodd bynnag, nid yw'r cofnodion hyn bob amser yn cynnwys gwybodaeth gyfredol gan nad ydynt yn cael eu hadolygu o fewn yr amserlenni gofynnol. Nid yw'r holl ddogfennau asesu risg yn darparu gwybodaeth gryno. Er enghraifft, cofnodwyd fod symudedd unigolyn wedi dirywio. Fodd bynnag, nid oedd y wybodaeth hon wedi'i chofnodi yn y cynllun personol ac ni roddwyd asesiad risg ar waith er mwyn nodi sut y caiff hyn ei reoli a'i fonitro. Mae angen gwneud gwelliannau hefyd i sicrhau y caiff ffurflenni digwyddiadau a damweiniau eu cwblhau yn llwyddiannus. Ni chaiff camau gweithredu eu dogfennu ar y ffurflen digwyddiadau o ran sut y caiff risgiau hysbys eu rheoli. At hynny, gwelsom nad oedd unrhyw archwiliadau wedi cael eu cynnal i fonitro patrymau er mwyn lleihau'r risgiau mewn perthynas â chwympiadau. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl ac, felly, rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Caiff y bobl ofal mewn modd amserol. Mae'r bobl yn hapus yn byw yn Hafod Mawddach. Dywedodd un person *"I'm very happy here;"* a chanmolodd y staff. Roedd y bobl yn edrych fel petaent wedi ymlacio ac yn fodlon eu byd yn y cartref. Caiff anghenion iechyd y bobl eu hatgyfeirio at wasanaethau iechyd mewn modd amserol. Cynhelir cyfarfod wythnosol â'r gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a rheolwr y cartref gofal i drafod unrhyw bryderon neu faterion. Mae rheolwr y cartref gofal o'r farn bod y cyfarfodydd amlddisgyblaethol rheolaidd yn ffordd gadarnhaol o rannu pryderon a chytuno ar gamau gweithredu. Caiff y bobl eu cefnogi â'u llesiant corfforol. Er enghraifft, roedd cofnodion y cyfarfod yn dangos bod cynllun ar waith i atgyfeirio unigolyn at ffisiotherapydd gan fod pryderon o ran ei symudedd. Mae'r trefniadau ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn effeithiol ac yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol cyfredol.

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth bolisïau ar waith i hyrwyddo hylendid a phrosesau rheoli heintiau; fodd bynnag, ni chaiff y polisïau eu rhoi ar waith yn ymarferol ac nid yw'r safonau gofynnol yn cael eu cyrraedd. Mae angen gwella'r broses o waredu biniau gwastraff clinigol er mwyn sicrhau y caiff risgiau rheoli heintiau eu rheoli. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn lân ac yn gartrefol. Mae'r ystafelloedd unigol wedi cael eu haddurno ag eitemau personol y bobl. Esboniodd un person, *"I chose everything for the room"* a dywedodd un arall, *"I'm happy with my room. I have many things in there from my home*". Mae hyn yn helpu'r bobl i deimlo'n gartrefol ac yn gyfforddus yn eu hystafelloedd eu hunain.

Mae dwy lolfa ar gael i'r bobl gymdeithasu ag eraill yn ogystal ag ystafell fwyta. Gall y bobl fwyta eu prydau yn eu hystafelloedd neu fwyta yng nghwmni pobl eraill yn yr ardal fwyta. Mae'r staff yn parchu dewisiadau'r bobl. Mae'r ardd wrthi'n cael ei hadnewyddu er mwyn sicrhau diogelwch y preswylwyr ac nid yw'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd; fodd bynnag, esboniodd y rheolwr y byddai modd mynd i'r ardd yn fuan, unwaith y bydd y gwaith adnewyddu wedi cael ei gwblhau.

Caiff profion eu cynnal yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y cartref yn ddiogel, gan gynnwys gwirio'r diffoddwyr tân ac ymarferion tân. Mae'r gwasanaeth hefyd yn gwneud yn siŵr bod aelodau o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelwch tân.

Mae'r cartref yn daclus ac mae trefniadau wythnosol ar waith i sicrhau bod pob llwybr dianc rhag tân yn glir. Gwelsom ystafelloedd gwely yn cael eu glanhau ac mae cyflenwadau digonol o gyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael ym mhob rhan o'r cartref.

Mae amrywiaeth o gyfarpar ar gael i ddiwallu anghenion y bobl, gan gynnwys cadeiriau, gwelyau a theclynnau codi arbenigol a gaiff eu gwasanaethu fel sy'n ofynnol. Mae system galw ar waith i'r bobl roi gwybod i'r gweithwyr gofal os bydd angen cymorth arnynt.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Caiff y staff eu recriwtio mewn ffordd ddiogel. Mae trefniadau ar waith i gynnal gwiriadau cyn cyflogi er mwyn sicrhau bod aelodau newydd o'r staff yn addas i weithio gyda phobl sy'n agored i niwed. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar y rotas misol a oedd yn dangos bod digon o staff yn cael eu defnyddio ar bob shifft. Gwelsom fod y lefelau staffio yn ddiogel yn ystod ein hymweliad.

Mae'r staff yn teimlo bod y tîm rheoli yn eu cefnogi. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael sesiynau goruchwylio ac arfarniadau staff rheolaidd sy'n rhoi cymorth iddynt a chyfleoedd i drafod unrhyw bryderon. Caiff y staff gofal hyfforddiant cyfredol ac mae trefniadau monitro ar waith er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi mynychu hyfforddiant gorfodol. Cynhelir cyfarfodydd tîm rheolaidd ag aelodau o'r staff a gaiff eu disgrifio ganddynt fel cyfarfodydd defnyddiol. Mae'r rheolwr ardal yn cynnal sesiynau goruchwylio rheolaidd ar gyfer y rheolwr er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gefnogi yn ei rôl.

Rhoddir gwybodaeth am y gwasanaeth i'r bobl i'w helpu i benderfynu a yw'r cartref yn addas ar eu cyfer. Mae'r Datganiad o Ddiben yn cynnwys gwybodaeth glir am y gwasanaeth a'r cyfleusterau sydd ar gael. Mae trefniadau ar waith gan y darparwr i oruchwylio'r gwasanaeth ac mae prosesau ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth. Mae polisi cwynion ar waith er mwyn sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw gwynion yn briodol.

Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi bodloni'r gofynion yn llawn mewn perthynas ag ymweld â'r gwasanaeth. Mae'n ofynnol iddo ymweld â'r gwasanaeth o leiaf bob tri mis, gan siarad â'r bobl a'r staff fel rhan o'i waith i fonitro'r gwasanaeth a ddarperir.  Fodd bynnag, ni allem weld fod hyn wedi digwydd yn ystod yr ymweliadau a gofnodwyd. Dywedodd yr unigolyn cyfrifol wrthym fod rheolwr ardal yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd i gasglu adborth gan y preswylwyr a'r staff, a'i fod yn cyflwyno ei ganfyddiadau i'r unigolyn cyfrifol. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 15 | Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi llunio cynllun personol sy'n nodi'n glir sut y caiff anghenion y bobl o ddydd i ddydd eu diwallu a'r camau a fydd yn cael eu cymryd i liniaru unrhyw risgiau a nodwyd i ddiogelwch y bobl. Nid oedd ymyriadau ar waith i liniaru unrhyw risgiau a nodwyd i'r bobl ar ôl iddynt gwympo. Nid yw wedi sicrhau bod pob digwyddiad lle bydd unigolyn yn cwympo yn cael ei gofnodi mewn archwiliad er mwyn nodi unrhyw batrymau posibl i leihau unrhyw achosion pellach o gwympo yn y dyfodol. Caiff gwybodaeth groes a chyfyngedig ei chofnodi yng nghynlluniau personol y bobl. Nid yw wedi sicrhau bod gwybodaeth gywir a chyfredol yn cael ei dogfennu'n glir yng nghynlluniau personol y bobl. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 73 | Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi ymweld â'r cartref bob tri mis o leiaf. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol ymweld â'r gwasanaeth yn bersonol bob tri mis o leiaf, a chyfarfod â'r unigolion a'r staff fel rhan o'r ymweliad. | Newydd |
| 56 | Nid oes gan ddarparwr y gwasanaeth ddarpariaeth ddigonol ar waith er mwyn rheoli heintiau a lleihau lledaeniad heintiau. Roedd risgiau hylendid a rheoli heintiau yn amlwg yn ystod yr arolygiad. | Newydd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 26/04/2023